| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Dyddiad y cyfarfod: | 22il Hydref 2021 |
| Pwnc yr Adroddiad: | Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 |
| Deilydd Portffolio: | Y Cynghorydd N Daniels, Arweinydd/Gwasanaethau Corfforaethol |
| Cyflwynwyd yr Adroddiad Gan: | Emma Scherptong, Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg |

| Llwybr Adrodd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth** | **Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol** | **Deilydd Portffolio /Cadeirydd** | **Pwyllgor Archwilio** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** | **Pwyllgor Craffu** | **Pwyllgor Gweithredol** | **Y Cyngor** | **Arall (nodwch)** |
| | 30.09.21 | 12.10.21 | | | 22.10.21 | 02.03.22 | | |

1. **Pwrpas yr Adroddiad**

Pwrpas yr Adroddiad yw nodi'r bwriadau ar gyfer datblygu ail Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 y Cyngor, yn unol â Safonau'r Gymraeg (2015) (Safon 145).

2. **Cwmpas a Chefndir**

2.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 erbyn 31 Mawrth 2022.

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau datblygu polisi a'r amserlenni allweddol sy'n ofynnol i gyflawni'r gofynion statudol hyn yn llwyddiannus.

2.3 Mae Safonau'r Gymraeg (2015) yn nodi bod yn rhaid i ni adolygu'r strategaeth bresennol (Safon 146) a chynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y bydd y Gymraeg yn cael ei hybu a'i defnydd yn cael ei hannog ar draws Blaenau Gwent. Rhaid iddi gynnwys (ymhlith materion eraill):

- Targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mlaenau Gwent (3%, 70 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol y flwyddyn, yn unol â *Miliwn o Siaradwyr* Llywodraeth Cymru erbyn 2050).
- Datganiad yn nodi sut rydych chi'n bwriadu cyrraedd y targed (amcanion a chynllun gweithredu).

2.4 Amserlen datblygu polisi arfaethedig:

| | |
|---|---|
| Ymgymryd ag ymchwil, gan gynnwys adolygiad o Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22. | Hydref 2021 |
| Cynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys holl Aelodau Etholedig y Cyngor. | Hydref – Tachwedd 2021<br>(8 wythnos) |
| Drafftio Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22 (amcanion) ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. | Tachwedd 2021 |
| Ymgynghoriad ffurfiol ar amcanion a dull arfaethedig Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22. | Tachwedd – Rhagfyr 2021 (8 wythnos) |
| Adolygiad o'r adborth a dderbyniwyd (*Gan gynnwys canfyddiadau ymgynghoriad Cynllun Strategol 10 mlynedd Cymraeg mewn Addysg*). | Ionawr 2022 |
| Cynllun Drafft Terfynol Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 wedi'i ddatblygu (amcanion a chynllun gweithredu). | Ionawr 2022 |
| Llwybr proffesiynol a gwleidyddol i'w fabwysiadu gan y Cyngor (gan gynnwys Craffu a Gweithredol). | Chwefror – Mawrth 2022 |
| Cyhoeddi a hyrwyddo. | 31ain Mawrth 2022 |

3. **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

**Opsiwn 1**

I. Ystyried y dull arfaethedig ar gyfer datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 a rhoi sylwadau lle bo hynny'n briodol.

**Opsiwn 2**

I. Ystyried a chytuno ar y dull arfaethedig ar gyfer datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27.

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol/Cyfrifoldebau Statudol/Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

Mae datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22 yn ddogfen strategol allweddol sy'n cyfrannu at agweddau ar y Cynllun Corfforaethol, Cyfrifoldebau Statudol, a Chynllun Llesiant Blaenau Gwent.

5. ***Goblygiadau yn erbyn pob opsiwn***

5.1 ***Effaith ar y Gyllideb (effaith tymor byr a thymor hir)***

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Bodlonir cyhoeddi a chyfieithu'r strategaeth, ar ran y Cyngor, o fewn cyllideb bresennol Llywodraethu a Phartneriaethau.

5.2 ***Risg gan gynnwys Camau Lliniaru***

Gall methu â rheoli prosiect yn effeithiol a nodi trefniadau priodol ar gyfer datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 arwain at y risg uwch y bydd y Cyngor yn methu â chydymffurfio â'i ofynion statudol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Safon 45).

5.3 ***Cyfreithiol***

Nid oes gan gylch gwaith yr adroddiad hwn unrhyw ganlyniadau cyfreithiol uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn amlinellu bod gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 erbyn 31 Mawrth 2022. Byddai methu â chyflawni'r gofynion hyn yn arwain at ganlyniadau o ran enw da ac ariannol.

5.4 ***Adnoddau Dynol***

Mae'n ddyletswydd ar draws y sefydliad i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chefnogi gweithrediad Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn rhagweithiol. Bydd y Tîm Polisi a Phartneriaethau yn goruchwylio'r cyfrifoldeb hwn trwy'r Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg, a bydd yn gweithio ar y cyd â meysydd gwasanaeth penodol fel Addysg (Strategaeth Cymraeg mewn Addysg) a Chyfathrebu ac ati.

6. **Tystiolaeth Ategol**

6.1 ***Gwybodaeth a Data Perfformiad***

Mae tri amcan i Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22 gyntaf y Cyngor:

| | |
|---|---|
| ***Amcan 1*** – | Hybu ac annog defnyddio'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned. |
| ***Amcan 2*** – | Cynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith. |
| ***Amcan 3*** – | Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |

Nodir y modd y mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn pob un o'r amcanion yn ei Gynllun Gweithredu. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro a'i adolygu gyda chynnydd yn erbyn yr amcanion yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 ac Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith  Gymraeg 2020-21.

6.2 ***Canlyniad disgwyliedig i'r cyhoedd***

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

6.3 ***Cyfranogiad (ymgynghori, ymgysylltu, cyfranogi)***

Yn sylfaenol i ddatblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol bydd cynnwys

- Pobl sy'n siarad Cymraeg (trwy 3 sesiwn a gyflwynir yn Gymraeg yn gweithio ar y cyd â Menter Iaith i ymgysylltu â chymunedau, clybiau a grwpiau lleol ar asesu a chynllunio'r strategaeth).
- Ymgysylltiad proffesiynol trwy'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol.
- Ymgysylltiad gwleidyddol trwy'r Trosolwg Corfforaethol a'r *holl* Aelodau.
- Rhanddeiliaid mewnol ac allanol (er enghraifft, Fforwm Cymraeg mewn Addysg a chyfraniad rhwydweithiau cymunedol a phartneriaeth ehangach).

6.4 ***Meddwl am y tymor hir (blaengynllunio)***

Mae'r adroddiad yn nodi cynigion tymor byr ar gyfer bwrw ymlaen â'r datblygiad polisi ar gyfer y Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Bydd y strategaeth yn amlinellu bwriadau'r Cyngor i fodloni ei ofynion dros gyfnod o bum mlynedd (2022-27).

6.5 ***Ffocws ataliol***

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Felly, sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

6.6 ***Cydweithio/gweithio mewn partneriaeth***

Datblygir y Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22 gyda chyfranogiad rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r Cyngor a thrwy weithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid allanol.

Mae'n cyd-fynd yn benodol â'r gwaith cyfredol sy'n cael ei wneud i adolygu a datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd.

6.7 ***Integreiddio (ar draws meysydd gwasanaeth)***

Bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 yn nodi dull corfforaethol ar draws y sefydliad i gyflawni yn erbyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

6.8 ***Datgarboneiddio a Lleihau Allyriadau Carbon***

Hwylusir yr holl weithgareddau ymgynghori ar-lein, ac felly maent yn lleihau allyriadau carbon sy'n deillio o gyfranogwyr sy'n dibynnu ar gludiant sy'n ddibynnol ar garbon.

6.9a ***Asesiad Effaith Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol*** *(cwblhau asesiad effaith i ystyried sut y gallai'r penderfyniad helpu i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol).*

Mae'r adroddiad yn cynnwys "penderfyniadau strategol" fel y'u diffinnir gan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r adroddiad yn cael effaith gadarnhaol ar y Themâu Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (*Cyfeiriwch at y Templed Sgrinio Asesiad Effaith Integredig sydd ynghlwm fel atodiadau*).

6.9b ***Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb*** *(sgrinio a nodi a oes angen asesiad effaith llawn).*

Mae'r adroddiad yn ffafriol i gael effaith gadarnhaol ar Gydraddoldeb i ddinasyddion, staff a rhanddeiliaid ehangach (*Cyfeiriwch at y Templed Sgrinio Asesiad Effaith Integredig sydd wedi'i atodi fel atodiadau*).

7. **Trefniadau Monitro**

7.1 *Nodwch sut y bydd y gwaith yn cael ei fonitro e.e. trwy graffu neu drefniadau rheoli perfformiad cyfarwyddiaeth.*

Bydd cynnydd a pherfformiad y Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 yn cael eu monitro drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a lofnodir yn broffesiynol gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a bydd yn cael ei gynnwys ar y Pecyn Gwybodaeth Trosolwg Corfforaethol.

**Dogfennau Cefndir/Dolenni Electronig**

- *Asesiad Effaith Integredig - Templed Sgrinio*
- *Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2017-22*
- *Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20*
- *Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2020-21*